

Y buddion sydd ynghlwm wrth fod yn un o Arbenigwyr/ Gwerthuswyr Horizon 2020



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae cymuned ymarfer arbenigwyr a gwerthuswyr Horizon 2020 Cymru wedi datblygu'r canllawiau anffurfiol hyn er mwyn i gymuned Horizon 2020 yng Nghymru fedru hyrwyddo a dangos y buddion sydd ynghlwm wrth fod yn werthuswr.

Beth yw arbenigwr / gwerthuswr?

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn penodi arbenigwyr annibynnol i helpu gyda'r gwaith ymchwil ac arloesi gan gynnwys gwerthuso cynigion, monitro prosiectau, gwerthuso rhaglenni a'r modd y caiff polisïau eu cynllunio.

Gall unrhyw un gofrestru fel arbenigwr os oes ganddynt lawer o arbenigedd yn themâu rhaglen Horizon 2020 ac os byddant ar gael i ymgymryd ag aseiniadau tymor byr yn achlysurol. Fel arfer, bydd y gwaith yn cynnwys sesiynau byr a fydd yn para tua 10 diwrnod y flwyddyn. Mae modd ymgymryd â'r gwaith o bell (h.y. yng nghartref neu yng ngweithle'r gwerthuswr) a/neu ym Mrwsel – neu Lwcsembwrg yn achos rhai aseiniadau arloesol.

Fel arbenigwr / gwerthuswr, cewch dâl o 450 ewro am bob diwrnod llawn o waith y byddwch yn ei wneud a chaiff unrhyw gostau teithio eu had-dalu i chi (o'ch man cychwyn i leoliad y cyfarfod, ac yn ôl) yn ogystal â chostau cynhaliaeth.

Gallwch gofrestru ar eich liwt eich hun (ewch i [adran yr arbenigwyr](#) yn y Porthol Cyfranogwyr). Nid oes angen i sefydliad eich cynnig chi, ac nid oes unrhyw fantais iddynt wneud hynny, er y dylech roi gwybod i'ch sefydliad eich bod wedi cofrestru.

Y buddion sydd ynghlwm wrth fod yn arbenigwr/gwerthuswr

- Cewch wybodaeth a phrofiad amhrisiadwy drwy fod yn un o arbenigwyr Horizon 2020. Byddwch yn dysgu cryn dipyn am ysgrifennu ceisiadau – bydd yn ategu unrhyw gwrs y gallech ei ddilyn;
- Fel gwerthuswr, byddwch yn meithrin gwybodaeth a hyder o wybod sut y dylid paratoi cynnig da a gweld amrywiaeth o geisiadau na fydddech yn eu gweld fel arall;
- Mae'n gyfle da i gyfarfod â chysylltiadau defnyddiol, dod o hyd i bartneriaid posibl a dysgu gan aelod-wladwriaethau a rhanbarthau eraill;
- Fel gwerthuswr, byddwch hefyd yn cael rhoi mewnbwn i'r Comisiwn Ewropeaidd a gallwch fanteisio ar wybodaeth a rhwydweithiau a'u defnyddio wedyn er eich budd neu'ch sefydliad eich hun;

- Mae'n gyfle gwych i arbenigwyr yn eu meysydd ac ymchwilwyr sydd newydd ddechrau ar eu gyrfa ddysgu rhagor am waith ymchwil drwy'r byd, yn ogystal â deall y broses o ariannu gwaith ymchwil cystadleuol;
- Mae galw mawr am arbenigwyr fel partneriaid oherwydd y wybodaeth sydd ganddynt;
- Mae sefydliadau/cyrff sydd â nifer o arbenigwyr yn gweld buddion sylweddol gan fod y broses o gyfnewid profiadau a gwybodaeth o fewn y gyfadran yn gwella ceisiadau a rhyngweithio â phartneriaid.
- Mae'n gyfle da i 'werthu' Cymru i'r byd.

Defnyddiwch y ddogfen hon fel man cychwyn yn eich sefydliad i drafod y buddion sydd ynghlwm wrth ymgymryd â'r rôl.

Cynghorion defnyddiol i werthuswyr presennol a newydd

Gall unrhyw un wneud cais i fod yn werthuswr, o'r sector cyhoeddus a phreifat, unigolion a phobl sydd wedi ymddeol. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn sicrhau bod yr arbenigwyr i gyd yn cael eu defnyddio yn eu tro drwy sicrhau nad yw 25% o werthuswyr Horizon 2020 wedi bod yn gysylltiedig â cheisiadau Horizon 2020/FP7 yn ystod y tair blynedd flaenorol. Ni chaiff yr un arbenigwr weithio mwy na 120 diwrnod i raglen Horizon 2020 ychwaith. Mae gan y Comisiwn Ewropeaidd lawer o bobl i ddewis ohonynt, a dyma rai awgrymiadau i'ch helpu chi i gael eich dewis fel gwerthuswr:

- Gofalwch fod eich proffil a'ch CV ar y Porthol Cyfranogwyr yn cynnwys eich manylion llawn a'u bod yn gyfredol – dim ond gwerthuswyr sydd â phroffil dilys gaiff eu hystyried;
- Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn chwilio am werthuswyr sydd â phrofiad o droi canlyniadau gwaith ymchwil yn gynhyrchion/gwasanaethau/buddsoddiad/eiddo deallusol yn ogystal â gwerthuswyr a chanddynt brofiad o'r cysylltiad rhwng gwyddoniaeth a pholisi;
- Mae amrywiaeth o ran ardaloedd daeryddol a rhyw yn cael ei ystyried wrth ddewis gwerthuswyr; mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn hoffi cael cynrychiolaeth ar y Panel sy'n rhannu'n 50/50 o ran y rhywau.

I gael rhagor o wybodaeth neu i gofrestru fel arbenigwr, ewch i [adran yr arbenigwyr](#) yn y Porthol Cyfranogwyr. Neu, cysylltwch ag arbenigwyr a gwerthuswyr cymuned ymarfer Horizons 2020 Cymru yn horizon2020@cymru.gsi.gov.uk

Rhagor o wybodaeth

E-bost: Horizon2020@cymru.gsi.gov.uk
Newyddion am gronfeydd yr UE: wefo.llyw.cymru

Twitter: twitter.com/wefocymru
YouTube: <https://www.youtube.com/user/welshgovernment>